CYNLLUN CYDRADDOLDEB HILIOL

STRATEGAETH 2010 –2013

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

CYNNWYS

	TUD.
Rhagair	1
Cyd-destun Cenedlaethol	2
Cyd-destun Lleol	2
Gofynion y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol	3
Poblogaeth Ddu a Lleiafrif Ethnig Blaenau Gwent	4-5
Edrych Ymlaen – Beth Fyddwn Yn Ei Wneud	6
Nod Strategol 1	7-8
Nod Strategol 2	9-10
Nod Strategol 3	11-12
Nod Strategol 4	13-14
Nod Strategol 5	15-16
Nod Strategol 6	17-18
Cwynion ar Wahaniaethu ar sail Hil	19
Gwybodaeth Gyswllt	20
Atodiad 1 –	
Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol 2010-11	21-36

RHAGAIR

Croeso i drydydd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent. Mae'r cynllun hwn yn anelu i adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn y cynlluniau blaenorol.

Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn dodi cyfrifoldeb ar bob corff cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol wrth weithredu ei swyddogaethau. Mae'r cyngor yn ymroddedig i sicrhau ei fod yn dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, yn hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.

I sicrhau fod y Cyngor yn llwyddo mae'n gweithredu'r cynllun Cydraddoldeb Hiliol hwn sy'n nodi'n glir y nodau strategol ac amcanion ar gyfer 2010-2013 yng nghyswllt cydraddoldeb hiliol. I sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol i wireddu ein nodau ac amcanon, caiff cynllun gweithredu blynyddol ei ddatblygu, ei weithredu a'i adolygu.

Mae gan y Cyngor ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau ein bod yn gwybod anghenion ein poblogaeth Ddu a Lleiafrif Ethnig ym Mlaenau Gwent a'n bod yn gweithredu ar yr anghenion hynny, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u coleddu o fewn ein cymunedau.

Robin Morrison
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

CEFNDIR

Cyd-destun Cenedlaethol

Cyflwynwyd y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol yn 1976 oedd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu ar sail hil. Fodd bynnag, dangosodd canfyddiadau'r ymchwiliad i farwolaeth Stephen Lawrence ac adroddiad McPherson yn ddilynol nad oedd y gyfraith a ddaeth i rym yn Neddf 1976 wedi bod yn llwyr effeithiol ac y medrai cyrff fod yn sefydliadol hiliol heb gael eu herlyn dan Ddeddf 1976. Adeiladodd Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ar Ddeddf 1976 gan gyflwyno dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i:

- Hyrwyddo cydraddoldeb hiliol;
- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- Hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.

Nod y ddyletswydd yw gwneud cydraddoldeb hiliol yn rhan allweddol o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio, drwy ei roi yng nghanol gwneud polisi, darparu gwasanaeth, rheoleiddio a gorfodaeth ac arfer cyflogaeth. Mae'r term 'swyddogaethau' yn golygu ystod llawn gweithgareddau, dyletswyddau a phwerau'r awdurdod. Mae'n cynnwys polisïau presennol a hefyd bolisïau'r dyfodol.

Cyd-destun Lleol

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yma yn ei hanfod yn strategaeth ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac mae'n amlinellu sut y bydd cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn cyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae cyfnod y cynllun yn rhedeg am dair blynedd rhwng 2010 hyd 2013.

Gofynion y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol

Mae'r Cynllun yn nodi ymagwedd at y Cyngor at gydraddoldeb hiliol a sut y bydd yn cyflawni'r gofynion a amlinellwyd yn y dogfennau penodol.

Mae hyn yn cynnwys sut mae'r Cyngor yn bwriadu:

- Asesu, ymgynghori ar, a monitro polisïau, gwasanaethau a swyddogaethau am unrhyw effaith niweidiol ar hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil;
- Cyhoeddi canlyniadau asesiadau effaith cydraddoldeb hiliol, ymgynghori a monitro ethnig;
- Sicrhau fod pobl Blaenau Gwent yn cael mynediad i'n gwasanaethau; a
- Sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol ar gydraddoldeb hiliol o amgylch cyflogaeth a hyfforddi staff. Mae'n rhaid i'r Cyngor gasglu a chyhoeddi'r wybodaeth statudol ddilynol gan gyfeirio at gyflogeion du a lleiafrif ethnig :
    - Recriwtio a chadw;
    - Hyrwyddo cyflogeion;
    - Disgyblaeth a chwynion;
    - Hyfforddiant, a
    - Gwerthusiadau staff.

POBLOGAETH DDU A LLEIAFRIF ETHNIG BLAENAU GWENT

Trosolwg

Dangosodd Cyfrifiad 2001 gyfanswm poblogaeth o 70,064 a phoblogaeth ddu a lleiafrif ethnig o ychydig dan 600, llai na 1% o'r holl boblogaeth o gymharu gyda chyfartaledd Cymru o 2%.

> *Oherwydd y defnydd o gategorïau ethnig wedi'u dosbarthu yn ôl lliw, methodd Cyfrifiad 2001 gynnwys gwir faint ac amrywiaeth poblogaeth ddu a lleiafrif ethnig Blaenau Gwent. Er enghraifft, nid oes unrhyw ystadegau ar Sipsiwn a Theithwyr yn nata Cyfrifiad 2001.*

Mae ystadegau Cyfrifiad 2001 yn dangos hefyd i tua 99.2% o boblogaeth Blaenau Gwent gael eu geni yn y Deyrnas Unedig (gyda 92% ohonynt wedi'u geni yng Nghymru), o gymharu â chyfartaledd Cymru o 97.9%.

Cymunedau Newydd

Roedd ehangiad yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004 yn ymestyn rhyddid symudiad i 10 aelod-wladwriaeth arall. Ar hyn o bryd, nid oes yr un ffynhonnell data sy'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr ar ymfudiad ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r Llywodraeth a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cydnabod bod y ffynonellau data yn annigonol ac maent yn gweithio i wella amseroldeb a thryloywder yr ystadegau ar fewnfudo a phoblogaeth.

Hyd yn oed wedyn, gwyddom fod gan Flaenau Gwent nifer o bobl o'r gwladwroaetjai sydd wedi'u derbyn (A8) fel canlyniad o'r wybodaeth a gasglwyd ar nifer o ddisgyblion sydd wedi cofrestru yn ysgolion Blaenau Gwent. Ym mis Medi 2009, roedd gan Flaenau Gwent tua 50 o blant o wladwriaethau A8, gyda'r mwyafrif ohonynt yn Bwyliaid (75%).

Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn derbyn hawl cymunedau Sipsi a Theithwyr i ffordd grwydrol o fyw p'un ai yw hynny oherwydd traddodiad teuluoedd, rheidrwydd economaidd, neu'n syml ddymuniad i beidio cael eu "clymu lawr". Mae'r Cyngor yn dymuno hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol ar gyfer cysylltiadau cymunedol da ac i atal digwyddiadau o aflonyddu ar sail hiliol. Drwy wneud hynny, mae'r Cyngor yn ceisio rhoi cydbwysedd rhwng anghenion aelodau'r gymuned sydd wedi setlo a Sipsiwn-Teithwyr sydd eisiau aros mewn gwersyll dros dro, ac sydd wedi'u cyfyngu o ran lle medrant gael gwersyll cyfreithiol.

Mae gan Gyngor Blaenau Gwent un safle i Sipsiwn-Teithwyr yng Nghwmcrachen, Nantyglo, gyda 20 llain parhaol. Oherwydd ein lleoliad daearyddol, ychydig iawn o deithwyr dros dro sy'n sefydlu gwersylloedd anghyfreithlon. Bob blynedd mae gennym fel arfer nifer fechan o deuluoedd Sipsi sy'n dod yma yn edrych am waith tymor-byr neu am resymau teuluol.

Dangosodd asesiad o anghenion tai fod angen 6 llain barhaol yn y safle yn y 5 mlynedd nesaf i ateb y galw a ddisgwylir.

Crynodeb

Lleiafrif bach o'n cyfanswm poblogaeth yw'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig a adroddwyd ym Mlaenau Gwent, hyd yn oed felly sylweddolwn ei fod yn rhannol wedi sefydlu'n dda, yn tyfu ac yn eithaf amrywiol. Felly, mae angen i ni sicrhau ein bod yn nodi ein nodau ac amcanon i fedru ateb yr angen gofynnol mewn modd effeithlon.

EDRYCH I'R DYFODOL – YR HYN Y BYDDWN YN EI WNEUD

Ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, rydym wedi nodi chwe nod strategol i sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni'r dyletswyddau a amlinellwyd yn Neddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Y nodau yw:

1. Arwain yr agenda cydraddoldeb hiliol ym Mlaenau Gwent;
2. Darparu gwasanaethau diwylliannol addas sydd â ffocws ar y cwsmer;
3. Creu gweithlu cyngor sy'n ymatebol i anghenion ein poblogaeth ddu a lleiafrif ethnig;
4. Gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein poblogaeth ddu a lleiafrif ethnig;
5. Ymrwymo ein poblogaeth ddu a lleiafrif ethnig wrth ddatblygu a darparu polisi a gwasanaethau; a
6. Dileu gwahaniaethu ar sail hil yn ei holl ddulliau a hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniaeth gymdeithasol rhwng gwahanol grwpiau hiliol.

Yn yr adran hon, esbonnir bwriad pob nod gyda'r amcanion allweddol y bydd y Cyngor yn anelu i'w cyflawni i sicrhau y caiff pob nod ei hateb. Amlinellir hefyd nifer o gamau gweithredu allweddol ar gyfer pob nod strategol gan nodi sut olwg fydd ar lwyddiant.

I gyd-fynd â'r strategaeth hon, datblygir cynllun blynyddol i amlinellu'n glir pa gamau ymarferol a phrosiectau a wneir i gyflawni pob nod. Dangosir y Cynllun Gweithredu am flwyddyn gyntaf y strategaeth hon yn Atodiad 1.

NOD STRATEGOL 1 – ARWAIN YR AGENDA CYDRADDOLDEB HILIOL YM MLAENAU GWENT

Ein nod

Mae'r nod hon yn adlewyrchu goblygiadau statudol y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn ei holl bolisïau, gweithdrefnau a swyddogaethau a bwriad y Cyngor i arwain yr agenda hwn drwy roi cefnogaeth i bartneriaid fedru cyfrannu at gydraddoldeb hiliol.

Ein hamcanion

1: Gweithredu strategaeth ar gyfer cydraddoldeb hiliol gyda chymeradwyaeth wleidyddol, broffesiynol a chymunedol
2: Sicrhau y rhoddir cydraddoldeb hiliol yn y brif ffrwd o fewn partneriaethau strategol allweddol.
3: Sicrhau bod arweinwyr proffesiynol a gwleidyddol yn datblygu dealltwriaeth/arbenigedd ac yn hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb hiliol.
4: Datblygu polisïau a gwasanaethau integredig i hwyluso arweinyddiaeth strategol.

Camau Gweithredu Allweddol

- Gweithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol a chynhyrchu cynlluniau gweithredu blynyddol yn ystod oes y strategaeth.
- Ymrwymo ein partneriaethau strategol mewn cydraddoldeb hiliol.
- Dynodi hyrwyddwyr ym mhob adran o'r Awdurdod a fydd yn helpu i arwain newidiadau mewn darpariaeth gwasanaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig.
- Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl gyda chydraddoldeb hiliol yn un o'r meysydd allweddol.

Sut olwg fydd ar lwyddiant?

- Mae cynllun clir ar gyfer cydraddoldeb hiliol yn ei le, a chaiff camau gweithredu priodol eu cymryd.
- Mae cydraddoldeb hiliol yn ganolog i'r agenda cydraddoldeb cyffredinol.
- Mae hyrwyddwyr allweddol ar gyfer cydraddoldeb hiliol yn eu lle ac yn gweithio ym mhob rhan o'r Cyngor.
- Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cydweithio i fynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol.
- Mae gan y Cyngor bolisïau, gweithdrefnau a swyddogaethau clir sy'n ei helpu i ymateb i anghenion y boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.

NOD STRATEGOL 2 – DARPARU GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL ADDAS GYDA FFOCWS AR Y CWSMER

Ein nod

Bydd y nod yma'n anelu i sicrhau fod y Cyngor yn gwella darpariaeth gwasanaethau i boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig Blaenau Gwent.

Ein Hamcanion

1. Parhau i ddefnyddio a defnyddio dulliau megis yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb Generig i ddynodi rhwystrau a chanfod datrysiadau.
2. Sefydlu strwythurau syn sicrhau bod arweinwyr allweddol yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at wella gwasanaethau.
3. Datblygu arferion caffaeliad y Cyngor ymhellach i sicrhau fod darparwyr gwasanaeth, cyflenwyr, partneriaid a'r rhai sy'n derbyn cymorth grant yn cyrraedd nodau cydraddoldeb hiliol.
4. Archwilio gwasanaethau allweddol megis ysgolion i ddynodi canlyniadau cydraddoldeb ar hil a meysydd ar gyfer gwella.

Camau Gweithredu Allweddol

- Ymestyn rhaglen o Asesiadau Effaith Cydraddoldeb Generig a chyhoeddi canlyniadau asesiadau ac ymgynghoriadau
- Cynnal archwiliad o bob ysgol ar gyfer cynlluniau cydraddoldeb hiliol
- Datblygu cynlluniau sy'n gweithio o fewn ysgolion a cholegau i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a herio troseddau casineb
- Archwilio galluedd cefnogaeth gwasanaeth iaith sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd
- Sicrhau y caiff mesurau cydraddoldeb hiliol eu hintegreiddio'n effeithiol i fframwaith rheolaeth perfformiad y Cyngor.

Sut olwg fydd ar lwyddiant?

- Mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaethau addas i grwpiau penodol megis cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
- Mae ysgolion ym Mlaenau Gwent yn diwallu anghenion plant du a lleiafrif ethnig.
- Gall y Cyngor gynnig cefnogaeth iaith arall.
- Mae'r Cyngor yn rheoli ei berfformiad yn effeithiol yng nghyswllt cydraddoldeb hiliol.
- Mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar ei bolisïau, gweithdrefnau a swyddogaethau, ac yn cyhoeddi'r canlyniadau.

NOD STRATEGOL 3 – CREU GWEITHLU I'R CYNGOR SY'N YMATEBOL I ANGHENION EIN POBLOGAETH DDU A LLEIAFRIF ETHNIG

Ein nod

Bydd y nod hon yn sicrhau fod y Cyngor yn datblygu ei gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i hyrwyddo amrywiaeth o fewn y gweithle.

Ein Hamcanion

1. Sicrhau fod pawb a gyflogir gan y Cyngor yn deall eu dyletswydd i gyflawni nodau'r cynllun cydraddoldeb hiliol.
2 Dynodi meysydd allweddol o wella ymarfer gweithlu a gosod targedau realistig ac addas.
3 Cyflawni rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb hiliol i staff.

Camau Gweithredu Allweddol

- Cynnal dadansoddiad seiliedig ar ras ac ethnigrwydd o gyflogeion pan gânt eu recriwtio, cadw a dyrchafu.
- Datblygu rhaglen hyfforddiant a datblygu cydraddoldeb hiliol ar gyfer staff rheng-flaen a rheolwyr.
- Adolygiad Datblygu Personol pob aelod o'r staff yn rhoi sylw i'r cyfraniadau y medrant ei wneud i gyflawni ar y cynllun cydraddoldeb hiliol.
- Datblygu a gweithredu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb hiliol ar gyfer staff allweddol ar asesiadau effaith cydraddoldeb.

Sut olwg fydd ar lwyddiant?

- Mae gan y Cyngor gyfran gynrychioladol o gyflogeion du a lleiafrif ethnig.
- Mae'r Cyngor yn gweithredu rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth hil effeithiol i staff i gael dealltwriaeth o gydraddoldeb hiliol.
- Staff yn sylweddoli'r gwahaniaeth a wnaiff eu rôl i gydraddoldeb hiliol drwy eu Hadolygiad Datblygu personol.
- Staff a chynghorwyr priodol â'r sgiliau a'r gefnogaeth i integreiddio egwyddorion cydraddoldeb hiliol mewn asesiadau effaith cydraddoldeb.

NOD STRATEGOL 4 - GWELLA EIN DEALLTWRIAETH O ANGHENION EIN POBLOGAETH DDU A LLEIAFRIF ETHNIG

Ein nod

Mae'r nod hon yn anelu i sicrhau fod y Cyngor yn gwella dealltwriaeth o'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig ym Mlaenau Gwent i sicrhau y gall gyflawni yn llawn ei ofynion ar gydraddoldeb hiliol.

Ein Hamcanion

1. Datblygu a gweithredu rhaglen waith i ddynodi anghenion diwylliannol ac iaith yr holl boblogaeth leiafrif ethnig.
2. Sicrhau bod ffocws clir ar resymau dros gasglu data yn cyfeirio at y boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.
3. Cyfathrebu gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaeth i roi'r gallu iddynt gyflawni anghenion y boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.
4. Datblygu darpariaeth cefnogaeth iaith i'n poblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.

Camau Gweithredu Allweddol

- Cyfrannu at a chefnogi gweithredu'r archwiliad data ar gydlyniaeth gymunedol.
- Casglu ystadegau eilaidd, gwybodaeth ac ymchwil berthnasol ar hil (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol).
- Archwilio defnydd y Cyngor o wasanaethau eraill ar gyfer cefnogi ieithoedd.
- Gweithio gyda Rheolwyr i wella monitro defnyddwyr gwasanaeth yn ôl tarddid ethnig a helpu i ddynodi canlyniadau cydraddoldeb hiliol.
- Gwella cyfathrebu data a gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaeth.

Sut olwg fydd ar lwyddiant?

- Mae gan y Cyngor ddarlun cywir o'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.
- Mae'r Cyngor yn deall y gofynion iaith ychwanegol gan y boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig ac yn rhoi cefnogaeth addas.
- Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth monitro sy'n dynodi defnyddwyr gwasanaeth yn ôl tarddiad ethnig ac yn helpu i ddynodi canlyniadau cydraddoldeb hiliol.
- Gall y Cyngor ddynodi patrymau newydd sy'n datblygu yng nghyswllt hil ym Mlaenau Gwent.
- Mae'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda phartneriaid priodol a chymunedau.

NOD STRATEGOL 5 - YMRWYMO EIN POBLOGAETH DDU A LLEIAFRIF ETHNIG WRTH DDATBLYGU A DARPARU POLISI A GWASANAETHAU

Ein nod

Bydd y nod yma'n allweddol i wneud y Cynllun yn llwyddiant gan ei fod yn nodi'r bwriad i weithio gyda gwahanol bobl a chymunedau du a lleiafrif ethnig i sicrhau fod y gwaith a wnawn a'r gwasanaethau a ddarparwn yn addas ac yn hygyrch iddynt.

Ein hamcanion

1. Sefydlu protocolau i ymgysylltu'n effeithiol gyda'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.
2. Cefnogi datblygiad dulliau a chynlluniau sy'n gwella sut y medrir ymrwymo pobl ddu a lleiafrif ethnig yn natblygiad polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.
3. Gweithredu ac adolygu strwythurau addas i alluogi'r Cyngor i gyfathrebu ac adeiladu partneriaethau effeithiol gyda chymunedau du a lleiafrif ethnig.

Camau Gweithredu Allweddol

- Gweithio gyda grwpiau lleiafrif ethnig i ganfod sut yr hoffent gymryd rhan.
- Cynnal gweithgareddau allgymorth gyda ffocws i annog cymunedau du a lleiafrif ethnig gymryd rhan wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.
- Ymdrechu i gael cynrychiolaeth o'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig a chynlluniau ymrwymiad presennol megis Cyswllt Gwrando, Cyswllt Busnes, a PACT.

- Asesu'r potensial o sefydlu Fforwm Cydraddoldeb Hiliol i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cyngor a chefnogi nodau cydraddoldeb hiliol.

Sut olwg fydd ar lwyddiant:

- Y Cyngor yn cyfathrebu'n effeithlon gyda'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.
- Pobl o'r gymuned ddu a lleiafrif ethnig yn cymryd rhan weithgar mewn cynlluniau ymrwymo'r gymuned megis Cyswllt Gwrando, Cyswllt Busnes, a PACT.
- Y Cyngor yn gweithredu Fforwm Cydraddoldeb Hiliol effeithiol gyda chynrychiolaeth gan y boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.

NOD STRATEGOL 6 - DILEU GWAHANIAETHU AR SAIL HILL YN EI HOLL AGWEDDAU A HYRWYDDO CYSYLLTIADAU DA A CHYDLYNIAETH GYMDEITHASOL RHWNG GWAHANOL GRWPIAU HIL

Ein nod

Bydd y nod yma'n sicrhau fod y Cyngor yn ymdrechu i fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol, troseddau casineb, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phryderon diogelwch cymunedol yn ymwneud â hil ym Mlaenau Gwent.

Ein Hamcanion

1. Gweithio gyda sefydliadau partner i rwystro, mynd i'r afael a thrin aflonyddu hiliol a throseddu casineb, a hyrwyddo cysylltiadau a chydlyniaeth dda.
2. Datblygu dealltwriaeth gliriach o ganlyniadau cydlyniaeth ar gyfer grwpiau du a lleiafrif ethnig.
3. Arwain ymgyrchu a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo'r neges allweddol o gael gwared â hiliaeth ac ymddygiad hiliol.

Byddwn yn Cyflawni hyn drwy: Camau Gweithredu Allweddol

- Gweithio'n agos gyda phartneriaethau strategol megis Blaenau Gwent Ddiogelach a'r Grŵp Adolygu Achos Fforwm Cydlyniaeth Gymunedol i adolygu a gwella sut mae'r Cyngor yn herio gwahaniaethu hiliol.
- Cefnogi partneriaid i wella casglu a rhannu ystadegau ar droseddau casineb hiliol.

- Datblygu rhaglen o gydlyniaeth gymunedol wedi'u hanelu at grwpiau lleiafrif ethnig sydd yn gydnaws gyda gwaith presennol ar gydlyniaeth.

Sut olwg fydd ar lwyddiant:

- Mae'r Cyngor yn annog dinasyddion i roi adroddiadau am unrhyw ddigwyddiadau o wahaniaethu ar sail hil.
- Mae'r Cyngor gyda'i bartneriaid yn herio gwahaniaethau ar sail hil.
- Mae'r Cyngor yn rhoi'r gefnogaeth briodol i herio troseddu casineb hiliol.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal digwyddiadau amlddiwylliannol i hyrwyddo dealltwriaeth ddiwylliannol a derbyniad rhwng ac o fewn gwahanol grwpiau.

CWYNION AM WAHANIAETHU HILIOL

Os yw unrhyw un yn teimlo y gwahaniaethwyd yn eu herbyn ar sail hiliol yn eu trafodion gyda'r Cyngor, medrant gysylltu â'r Cyngor mewn ysgrifen, drwy ffonio neu drwy neges e-bost (caiff y rhifau cyswllt ac ati ar gyfer meysydd gwasanaeth eu hamlinellu yn nogfen "Mae'ch Llais Chi yn Cyfrif" y Cyngor).

Mae'r drefn Cwynion Corfforaethol a ddatblygwyd gan y Cyngor yn nodi lle a sut y medrir codi cwynion a sylwadau, y cymorth sydd ar gael i'r achwynydd, ac amserlen ar gyfer ymateb. Dylai unrhyw gwynion am y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol gael eu gwneud yn y ffordd yma.

Os nad ydych yn fodlon gyda'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, medrwch ofyn am gyfeirio'r achos i'r Ombwdsman Llywodraeth Lleol neu medrwch gysylltu â'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i drafod eich achos.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Cynllun Cydraddoldeb Hiliol 2010 –2013

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar gael ar wefan y Cyngor www.blaenau-gwent.gov.uk ac mewn llyfrgelloedd/canolfannau hamdden lleol.
Mae'r ddogfen ar gael drwy e-bost, mewn print bras, Braille, ar dâp sain, Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) neu ddisg os gwneir cais.

Cysylltwch â:

Alan Burkitt – Swyddog Cydraddoldeb
Cyfarwyddiaeth Llywodraethu
Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
Blaenau Gwent
NP23 6XB

Ffôn: (01495) 355108,
Ffacs: (01495) 355087
E-bost: alan.burkitt@blaenau-gwent.gov.uk

CYNLLUN CYDRADDOLDEB HILIOL 2010-13

Edrych i'r dyfodol – Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?

CYNLLUN GWEITHREDU 2010 – 2011

CYNGOR BWRDEISDREF SIROL BLAENAU GWENT

NOD STRATEGOL 1 – ARWAIN YR AGENDA CYDRADDOLDEB HILIOL YM MLAENAU GWENT

AMCAN 1.1: *Gweithredu strategaeth ar gyfer cydraddoldeb hiliol gyda chymeradwyaeth wleidyddol, broffesiynol a chymunedol*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Gweithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar gyfer 2010 - 2013	Adroddiadau i'r CMT a'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer cymeradwyaeth. Adroddiadau rheolaidd i FIP Craffu ar gynnydd ac Adroddiad Blynyddol i'r CMT/Pwyllgor Gwaith	Cymeradwyo'r Cynllun yn ffurfiol ac agenda cydraddoldeb hil a arweinir yn strategol	Pob Cyfarwyddwr Gwasanaeth
Dosbarthu'r Cynllun i Gyfarwyddiaethau, Aelodau Etholedig a'r cyhoedd	Y cynllun ar gael drwy e-bost neu mewn copi caled a'i ddosbarthu ar draws Canolfannau Hamdden a Llyfrgelloedd	Cynyddu ymwybyddiaeth a rhoi'r agenda cydraddoldeb hiliol yn y brif ffrwd ym Mlaenau Gwent	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu
Sefydlu Rhith Rwydwaith Polisi i gefnogi gweithrediad y Strategaeth	Sefydlu rhwydwaith gydag aelodaeth o bob Cyfarwyddiaeth	Cefnogaeth gorfforaethol i'r agenda cydraddoldeb hiliol a phennu camau gweithredu ar gyfer pob adran	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

AMCAN 1.2: *Sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn y brif ffrwd mewn partneriaethau strategol allweddol*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Cyflwyno cynllun cydraddoldeb hiliol i Bartneriaethau Strategol	Tystiolaeth o gydweithredu gan Bartneriaethau Strategol	Mwy o ymwybyddiaeth a phrif ffrydio'r agenda cydraddoldeb hiliol ym Mlaenau Gwent	Pob Cyfarwyddiaeth

AMCAN 1.3: *Sicrhau bod arweinwyr proffesiynol a gwleidyddol yn datblygu arbenigedd mewn cydraddoldeb hiliol*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Datblygu rhaglen i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r agenda cydraddoldeb hiliol ar gyfer y CMT a'r Pwyllgor Gwaith	Rhaglen wedi'i datblygu a sesiynau hyfforddiant codi ymwybyddiaeth wedi'u cyflwyno	Arweinwyr proffesiynol a gwleidyddol yn datblygu arbenigedd mewn cydraddoldeb hiliol	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

AMCAN 1.4: *Datblygu polisïau a gweithdrefnau integredig i hwyluso arweinyddiaeth strategol.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Ymchwilio arfer gorau ar ddatblygu cynllun cydraddoldeb sengl	Ymchwil wedi'i gasglu a chynllun gweithredu wedi'i gynhyrchu	Polisïau a gweithdrefnau integredig i hwyluso arweinyddiaeth strategol	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

NOD STRATEGOL 2 – DARPARU GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL ADDAS GYDA FFOCWS AR Y CWSMER

AMCAN 2.1: *Parhau i ddefnyddio a gwella dulliau megis Asesiadau Effaith Ansawdd Generig i ddynodi rhwystrau*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Cefnogi Cyfarwyddiaethau i gynnal Asesiadau Effaith Ansawdd Generig a dynodi materion cydraddoldeb sydd angen sylw	Rhwystrau i wasanaethau wedi'u dynodi drwy asesiadau effaith a thystiolaeth o gamau gweithredu a gymerwyd i wella mynediad.	Gwella mynediad i wasanaethau i'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig	Llywodraethu a Phob Cyfarwyddiaeth
Cyhoeddi canlyniadau asesiadau effaith ac ymgynghoriadau.	Cyhoeddi asesiadau ar wefan Blaenau Gwent.	Gwella gwasanaethau i bobl ddu a lleiafrif ethnig sy'n byw ym Mlaenau Gwent	Pob Cyfarwyddiaeth

AMCAN 2.2: *Sefydlu strwythurau i sicrhau fod arweinwyr allweddol yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at wella gwasanaethau.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd y ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Sefydlu Rhwydwaith Polisi Rhith cydraddoldeb hiliol	Rhwydwaith wedi'i sefydlu gydag aelodau o bob cyfarwyddiaeth	Arweinwyr allweddol yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at wella gwasanaethau.	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

AMCAN 2.3:*Datblygu arferion caffaeliad y Cyngor ymhellach i sicrhau fod contractwyr gwasanaeth, cyflenwyr, partneriaid a rhai'n derbyn cymorth grant yn diwallu anghenion cydraddoldeb hiliol.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Adolygu arferion caffaeliad ar gyfer effaith cydraddoldeb hiliol	Protocolau caffaeliad wedi'u sefydlu	Sicrhau bod Blaenau Gwent yn cydymffurfio a gwella darpariaeth gwasanaethau i bobl ddu a lleiafrif ethnig	Caffaeliad a Llywodraethu

AMCAN 2.4: *Archwilio meysydd gwasanaeth allweddol megis ysgolion i ddynodi cydraddoldeb hiliol a meysydd ar gyfer gwella*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Cynnal archwiliad o gynlluniau cydraddoldeb hiliol ysgolion	Cynlluniau cydraddoldeb hiliol wedi'u casglu o bob ysgol, a bylchau wedi eu dynodi	Cynlluniau cydraddoldeb hiliol wedi'i gasglu yn dangos nodau cydraddoldeb hiliol ysgolion	Addysg
Gwella ansawdd a chysondeb data a gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth yn ôl grŵp hiliol	Gwybodaeth wedi'i chasglu	Gwell dealltwriaeth ymysg defnyddwyr gwasanaethau	Pob Cyfarwyddiaeth

NOD STRATEGOL 3 – CREU GWEITHLU I'R CYNGOR SY'N YMATEBOL I ANGHENION POBL DDU A LLEIAFRIF ETHNIG YM MLAENAU GWENT

AMCAN 3.1 *Sicrhau fod pob aelod o staff Cyngor yn deall eu dyletswydd i gyflawni nodau'r cynllun cydraddoldeb hiliol.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Cynnal asesiad anghenion hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer staff rheng-flaen	Gwybodaeth wedi'i chasglu	Gwell dealltwriaeth ymysg darparwyr gwasanaeth o gydraddoldeb hiliol. Gwell darpariaeth gwasanaeth ar gyfer pobl ddu a lleiafrif ethnig	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu
Datblygu a darparu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb hiliol ar gyfer staff rheng flaen	Rhaglen wedi'i datblygu a sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi'u darparu	Fel Uchod	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

AMCAN 3.2: *Dynodi meysydd allweddol o wella ymarfer gweithlu a gosod targedau realistig ac addas.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Cynnal dadansoddiad cyflogeion ar recriwtio, cadw a dyrchafu staff yn seiliedig ar hil ac ethnigrwydd	Canlyniadau wedi eu casglu, eu monitro a'u cyhoeddi ar wefan	Cyhoeddi canlyniadau blynyddol	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

AMCAN 3.3: *Darparu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb hiliol ar gyfer staff*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Datblygu a gweithredu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb hiliol ar gyfer staff allweddol ar egwyddorion cydraddoldeb hiliol	Rhaglen wedi'i datblygu a sesiynau hyfforddiant codi ymwybyddiaeth wedi'u cyflwyno	Staff allweddol wedi'u hyfforddi ac yn medru darparu gwasanaethau addas	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

NOD STRATEGOL 4: GWELLA EIN DEALLTWRIAETH ANGHENION EIN POBLOGAETH DDU A LLEIAFRIF ETHNIG

AMCAN 4.1 *Datblygu a gweithredu rhaglen waith i ddynodi anghenion diwylliannol ac iaith y boblogaeth lleiafrif ethnig.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Cyfrannu at a chefnogi'r archwiliad data cydlyniaeth cymunedol	Wedi mynychu cyfarfodydd a gwneud tystiolaeth o gyfraniadau	Darlun cliriach o anghenion diwylliannol ac iaith y boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig	Pob Cyfarwyddiaeth
Archwilio galw a defnydd y Cyngor o wasanaeth y Llinell Iaith a gwasanaethau eraill cefnogi iaith	Gwybodaeth wedi'i chasglu ar ddefnydd iaith gan y Cyngor	Sefydlu llinell sylfaen o ddefnydd a galw	Caffaeliad

AMCAN 4.2 *Sicrhau bod ffocws clir ar y rhesymau dros gasglu data yn cyfeirio at y boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Gweithio gyda Rheolwyr i wella monitro defnyddwyr gwasanaeth yn ôl tarddiad ethnig a helpu i ddynodi materion cydraddoldeb hiliol	Gwybodaeth ar hil yn cael ei chasglu'n gyson ar draws y Cyngor	Gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig	Llywodraethu

AMCAN 4.3: *Cyfathrebu gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaeth i'w galluogi i ddiwallu anghenion y boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Gwella cyfathrebu data a gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaeth ar faterion allweddol cydraddoldeb hiliol	Materion allweddol wedi'u dynodi gyda darparwyr allweddol.	Gwasanaethau yn fwy hygyrch i'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig	Pob Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth

AMCAN 4.4 *Datblygu darpariaeth cymorth iaith ar gyfer ein poblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.*

Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?	**Sut fyddwn ni'n gwybod bod cynnydd**	**Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?**	**Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni**
Caffael gwasanaethau cymorth iaith effeithlon	Gwasanaeth ar waith	Pobl ddu a lleiafrif ethnig yn medru defnyddio eu dewis iaith wrth ddelio gyda'r Cyngor	Caffaeliad

NOD STRATEGOL 5 – YMRWYMO POBL DDUON A LLEIAFRIF ETHNIG WRTH DDATBLYGU A DARPARU POLISI A GWASANAETHAU

AMCAN 5.1 *Sefydlu protocolau effeithiol i ymrwymo'n effeithiol gyda'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig.*

BETH YDYM NI'N MYND I'W WNEUD?	SUT FYDDWN NI'N GWYBOD BOD CYNNYDD	PA WAHANIAETH FYDD YN EI WNEUD?	PWY SY'N GYFRIFOL AM GYFLAWNI
Ymchwilio dulliau addas ar gyfer ymrwymo grwpiau lleiafrif ethnig	Ymchwil sylfaenol ac eilaidd addas wedi'i chasglu	Ymagwedd fwy addas gan y Cyngor i ymrwymo'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

AMCAN 5.2 *Cefnogi datblygiad dulliau a chynlluniau sy'n gwella sut y medrir ymrwymo pobl ddu a lleiafrif ethnig wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.*

BETH YDYM NI'N MYND I'W WNEUD?	SUT FYDDWN NI'N GWYBOD BOD CYNNYDD	PA WAHANIAETH FYDD YN EI WNEUD?	PWY SY'N GYFRIFOL AM GYFLAWNI
Asesu potensial sefydlu fforwm cydraddoldeb hiliol i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cyngor a chefnogi cynlluniau cydraddoldeb hiliol	Penderfyniad wedi'i wneud ar hyfywedd y fforwm	Y Cyngor yn medru ymgynghori'n effeithiol gyda chynrychiolwyr addas o'r cymunedau du a lleiafrif ethnig	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

AMCAN 5.3 *Gweithredu ac adolygu strwythurau addas i alluogi'r Cyngor i gyfathrebu'n effeithiol ac adeiladu partneriaethau gyda chymunedau du a lleiafrif ethnig.*

BETH YDYM NI'N MYND I'W WNEUD?	**SUT FYDDWN NI'N GWYBOD BOD CYNNYDD**	**PA WAHANIAETH FYDD YN EI WNEUD?**	**PWY SY'N GYFRIFOL AM GYFLAWNI**
Cynnal gweithgareddau allgymorth gyda ffocws i annog cymunedau du a lleiafrif ethnig i gymryd rhan wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau, megis y Cynllun Cydraddoldeb Sengl	Tystiolaeth glir fod pobl o'r boblogaeth BME yn helpu i lunio polisi a gwasanaethau'r Cyngor	Dangos ymrwymiad i'r boblogaeth ddu a lleiafrif ethnig fod y Cyngor yn gwrando ac yn gweithredu ar eu sylwadau	Cyfarwyddiaeth Llywodraethu

NOD STRATEGOL 6 - DILEU GWAHANIAETHU AR SAIL HIL YN EI HOLL DDULLIAU A HYRWYDDO CYSYLLTIADAU DA A CHYDLYNIAETH GYMUNEDOL RHWNG GWAHANOL GRWPIAU HIL

AMCAN 6.1 *Gweithio gyda sefydliadau partner i atal, mynd i'r afael a delio gydag aflonyddu hiliol a throseddau casineb a hyrwyddo cysylltiadau a chydlyniaeth dda*

BETH YDYM NI'N MYND I'W WNEUD?	**SUT FYDDWN NI'N GWYBOD BOD CYNNYDD**	**PA WAHANIAETH FYDD YN EI WNEUD?**	**PWY SY'N GYFRIFOL AM GYFLAWNI**
Sefydlu grŵp adolygu achos i gefnogi'r Fforwm Cydlyniaeth Gymunedol	Cytuno ar brotocolau a dulliau ar gyfer adrodd gyda phartneriaid	Troseddau casineb hil ac aflonyddu'n cael eu trin yn gyson ac yn addas gan ddarparwyr gwasanaeth	Swyddogion cyngor yn aelodau o'r Fforwm Cydlyniaeth Gymunedol

AMCAN 6.2 *Datblygu dealltwriaeth gliriach o ganlyniadau cydlyniaeth ar gyfer grwpiau du a lleiafrif ethnig*

BETH YDYM NI'N MYND I'W WNEUD?	SUT FYDDWN NI'N GWYBOD BOD CYNNYDD	PA WAHANIAETH FYDD YN EI WNEUD?	PWY SY'N GYFRIFOL AM GYFLAWNI
Ymchwilio'r materion cydlyniaeth sy'n effeithio ar bobl yn ein cymunedau du a lleiafrif ethnig	Tystiolaeth addas yn ymwneud a chydlyniaeth a hil wedi'i chasglu	Gwella dealltwriaeth o faterion cymunedau du a lleiafrif ethnig a'r cysylltiad rhyngddynt â'r agenda cydlyniaeth ar gyfer pobl ddu a lleiafrif ethnig	Fforwm Cydlyniaeth Gymunedol

AMCAN 6.3 *Arwain ymgyrchu a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo neges allweddol cael gwared â hiliaeth ac ymddygiad hiliol*

BETH YDYM NI'N MYND I'W WNEUD?	SUT FYDDWN NI'N GWYBOD BOD CYNNYDD	PA WAHANIAETH FYDD YN EI WNEUD?	PWY SY'N GYFRIFOL AM GYFLAWNI
Datblygu rhaglen o gynlluniau cydlyniaeth wedi'u hanelu at grwpiau lleiafrif ethnig sy'n gydnaws gyda'r gwaith presennol ar gydlyniaeth	Rhaglen wedi'i datblygu	Gwell cytgord hiliol a mwy o ddealltwriaeth o gymunedau du a lleiafrif ethnig	Fforwm Cydlyniaeth Gymunedol